

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*  
**Bethan Roberts**  
Rhif Ffôn: 01248 602131  
Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn  
Neuadd Goffa, Mynydd Llandegai ar  
**Nos Iau 15 Mehefin 2023 am 18.30**

## **PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce  
Y Cynghorydd Dafydd Owen  
Y Cynghorydd Lowri Jones  
Y Cynghorydd Iwan Hywel  
Y Cynghorydd Huw Jones

Y Cynghorydd Carwyn Edwards  
Y Cynghorydd Anwen Jones  
Y Cynghorydd David H Roberts  
Y Cynghorydd Gareth P Williams

- 1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cyng. Mair O Pierce. Etholwyd y Cynghorydd Mair Pierce Owen yn gadeirydd am y flwyddyn 2023/24. Cynigwyd sesiynau mentorau a hyfforddiant i'r holl aelodau a fyddai hefo diddordeb cymryd yr awennau yn y dyfodol.

**Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Dafydd Roberts, Sian Beidas, Mary Hayes a Beca Roberts.

## **2. Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd**

Nodwyd ein siom fod Steffan Jones methu mynychu, ond diolchwyd i Ian Morgan am fynychu yn ei le. Cafwyd trafodaeth defnyddiol iawn am nifer o faterion yn cynnwys:

- Cyflwr lonydd yr ardal yn gyffredinol
- Safon y gwaith clytio
- Rhaglen waith a blaenoriaethu gwaith
- Diffyg cyllideb yr adran priffyrdd

Penderfynwyd fydd Ian Morgan yn yn edrych i fewn i'r materion isod:

1. Drychau ar groesffordd Llwybr Main/Lon y Grug;
2. Edrych ar lyfnu'r twmpathau cyflymder ar y B4409, nid yw'r twmpathau presennol yn addas;
3. Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy – estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch;
4. Bont ar y ffordd B4409 ger Moelyci – oes bosib arwyddion blaenoriaeth un ffordd yma, mae'r ffordd yn gul ofnadwy a nifer o ddamweiniau wedi bod ar y safle.

Nodwyd Ian Morgan bydd y Cynghorau Cymuned yn derbyn adroddiad misol gan yr adran o hyn ymlaen, sonwyd hefyd y byddai'n fwy na bodlon mynychu cyfarfodydd eto yn y dyfodol.

### 3. Cofnodion

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2023.

### 4. Materion yn codi o'r cofnodion

- 4.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig** – Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd yn edrych ar fan welliannau yn yr ardal i geisio arafu traffig a bydden nhw hefo gwell syniad o be allwn nhw ei gynnig yn yr wythnosau nesaf. Dim diweddariad hyd yn hyn. Y Clerc i holi Iwan ap Trefor am y cynllun '20mya' – yw'r ffordd hwn yn gael ei gynnwys yn y cynlluniau?
- 4.2 **Llecyn Tir, Bont Tŵr** – Cadarnhawyd fod cwmni Savills yn edrych i fewn i'r mater, ac mi fydden nhw yn cysylltu yn ôl yn fuan iawn. Dim ymateb hyd yn hyn.
- 4.3 **Llwybr Rhif 3** – Adroddwyd fod y Clerc a'r Cyng. Dafydd Roberts wedi cyfarfod gyda'r Swyddog Llwybrau, Rob Jones ar y safle. Nodwyd fod y llwybr hwn hefo llawer o rhwystrau, yn cynnwys diffyg arwyddion, giatiau a ffens drydan. Nodwyd mai llwybr categori 4 yw hon, ac felly nid oes arian ar gael ar gyfer y gwelliannau mewn sylw. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda rheolwr y swyddog i drafod y posibilrwydd o newid y categori hwn – ar y gweill.
- 4.4 **Drychau traffig, Lon y Grug/Llwybr Main** - Y Clerc wedi gwneud cais am ddau drych, un bob ochr. Derbyniwyd adolygiad gan y Swyddog Traffig, ac yn flaenorol container a coed sydd yn blocio gweledd ar y cyffordd. Mae gan y tirlfeddianwyr cyfrifoldeb i gadw'r cyffordd sydd ar terfyn ei tir yn clir o unrhyw rhwystrau. O ganlyniad, fydd y Cyngor yn mynd ymlaen i ofyn am gyngor gan yr adran Priffyrdd ar sut bydd y ffordd orau i ddelio gyda'r mater hwn – Ian Morgan i edrych i fewn i'r mater.
- 4.5 **Lôn y Wern, Tregarth** – y Clerc wedi danfon y lluniau gan y Cyng. Sian Beidas at yr adran Priffyrdd – nodwyd nid yw'r ffordd hwn yn flaenoriaeth mawr, yn enwedig y ffordd rhwng Cororion a Tai Teilwriaid.
- 4.6 **Mainc Pentref Llandygai** – Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ariannu fainc newydd ar hyn o bryd. Y Clerc i ail godi'r mater ym mis Hydref 2023 ar ôl i'r ail daliad archeb gael ei dderbyn. Yn dilyn syniad y Cyng. Dafydd Owen, y Clerc i holi Stad Penrhyn os oes bres ar gael i ariannu'r fainc newydd.
- 4.7 **Hysbysfwrdd ger Ysgol Tregarth** – Y Clerc i weld os oes modd atgyweirio'r hysbysfwrdd gwreiddiol – nodwyd y Clerc ei fod yn gael trafferth gael saer coed draw i edrych ar y gwaith.
- 4.8 **Llwybrau Cyhoeddus** - Y Clerc i drefnu cyfarfod gyda'r Is-bwyllgor Llwybrau i drafod y tendr cyn gynted a phosib.
- 4.9 **Palmant Allt Cerrigllwydion** – Adroddwyd fod ychydig o waith glanhau wedi ei gwblhau, ond fod y gwaith ddim digon da. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
- 4.10 **Glanhau cysgodfannau bws** – Y Clerc wedi gofyn i'r Swyddog Cynnal glanhau'r llochesi bws, ond nid yw'r gwaith wedi gael ei gwblhau. Y Clerc i holi Partneriaeth Ogwen am gytundeb lefel gwaith y Swyddog ac i holi am adroddiad byr misol.
- 4.11 **Seddi Gwag** – Y Clerc wedi hysbysebu'r dwy sedd wag eto. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn llythyru'r pentref. Y Clerc wedi holi'r Cyng. Dafydd Meurig, dim ymateb hyd yn hyn.

**4.12 Binau Baw Ci** – Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts yn gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug – ar y gweill.

**4.13 Arhosfan Bws/'Pull-in Bay' Llys y Gwynt** – Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael arhosfan/pull-in bay ger Llys y Gwynt – dim ymateb hyd yn hyn.

## **5. Archwiliad Mewnol Cyfrifon 2022-23**

Derbynwyd yr adroddiad ac i ymrwmo i roi sylw i'r risgiau nodwyd a chymeryd y camau priodol i'w liniaru.

## **6. Ffurflen Flynyddol 2022-23**

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

## **7. Mabwysiadwy dogfennau**

Mabwysiadwyd y dogfennau canlynol:

- Rheolau Sefydlog
- Rheoliadau Ariannol
- Cod Ymddygiad.

## **8. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2023'

**Cyflwynwyd:** Dr Craig Shuttleworth – Coedwig Parc y Bwlch – Cytunwyd bydd y Cyngor Cymuned yn llythyru Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn os ydynt yn monitro niferoedd Wiwerod Coch a Bele'r Coed, a gofyn iddynt am gopi or data.

**Cyflwynwyd:** Partneriaeth Ogwen – Adroddiad Cynnydd Ebrill 2023 – pawb i ddarllen y cynnwys.

**Cyflwynwyd:** Llwybr Parc Meurig – Nodwyd fod y llwybr hwn angen sylw – adroddwyd y Clerc fod Cyngor Cymuned Bethesda yn edrych i fewn i'r mater ac yn edrych i adnewyddu'r les gyda perchnogion y tir.

**Cyflwynwyd:** Sharon Breward – Coedwig Parc y Bwlch – y Clerc i lythyru Cyfoeth Naturiol Cymru i gwyno am diffyg cyfathrebu a ymgynghori am y datblygiadau yn y goedwig. Nodwyd y Clerc y bydd Kath McNulty yn mynychu'r cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

## **9. Gwaith y mis**

Dim.

## **10. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**

**Ysgol Tregarth** – Cyng. Dafydd Owen wedi mynychu'r cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr yr ysgol – nodwyd fod rhan fwyaf o ddisgyblion blwyddyn 6 yn mynd i ysgolion uwchradd Bangor a nid i Ddyffryn Ogwen – pryderus am hyn. Nodwyd hefyd fod nifer bach yn cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi, felly bydd nifer y dosbarthiadau yn gostwng.

## **11. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**11.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc hyd yn hyn. Derbyniwyd yr adroddiad.

## **12. Taliadau**

Dim.

### 13. Penderfyniadau Cynllunio

C18/0767/16/LL

Coed Wern, Glasinfryn  
Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig)  
sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau  
gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer  
podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i  
gynnwys ffyrdd mewnlol, mannau parcio,  
systemau draenio cynaliadwy ynghyd a  
draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled  
gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac  
ymgymryd a gwelliannau i'r goedlan  
presennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant  
ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol  
a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda  
pwyntiau gwefru trydan.

**Penderfyniad:** ar y gweill.

C22/1153/16/LL

Tir gyferbyn Pant yr Ardd, Tregarth  
Adeiladu 2 annedd ar wahân, trefniadau  
mynediad newydd a pharcio. Byddai un tŷ ar  
gael ar y farchnad agored a'r llall yn dŷ  
fforddiadwy ecwiti ar y cyd.

**Penderfyniad:** Gwrthodwyd.

C23/0277/16/DT

6 Maes Ogwen, Tregarth  
Estyniad un llawr i'r cefn

**Penderfyniad:** Caniatwyd gydag amodau.

C23/0343/16/AC

2 Tan Y Bwlch, Mynydd Llandygai  
Diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio  
C18/0511/16/LL ar gyfer creu estyniad llawr  
cyntaf yng nghefn yr eiddo er mwyn galluogi  
creu estyniad lai o faint

**Penderfyniad:** Caniatwyd gydag amodau.

C23/0332/16/DT

26 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,  
Estyniad llawr gwaelod i gefn y tŷ presennol a  
phorth i flaen y tŷ.

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

C23/0337/16/CR

Pen y Llyn, Mynydd Llandegai  
Codi lolfa haul ar ochr ty annedd

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

C23/0386/16/LL

Unit 16, Gatway Park Ystâd Ddiwydiannol  
Llandygai  
Newidiadau arfaethedig i ffasâd blaen yr  
adeilad i gynnwys drws mynediad newydd i  
gerddwyr a drws caead rholio newydd.

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

## 10. Ceisiadau Cynllunio

**C23/0445/16/LL**

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda  
Gosod paneli PV ar doeau tri adeilad  
presennol

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**C23/0415/16/YA**

Parc Y Bwlch Stacking , Parc Y Bwlch Forest,  
Mynydd Llandygai

Silff bentyrru newydd yn cael ei chloddio  
gerllaw ffordd goedwig bresennol

**Penderfyniad:** Dim sylw.

## 11. Unrhyw fater brys arall

Dim.